# Is-Grŵp Marchnata Cyrchfan Conwy

# Cylch Gorchwyl

**Aelodau**

| Enw'r aelod \| Name of member | Enw'r busnes \| Name of business |
|---|---|
| Nigel Leak | Harringtons at 14 |
| Beverley Cooke | Alpine Travel |
| Tamzyn Lawrence | t-l-c, Betws y Coed |
| Maria McLean | Rydal Penrhos |
| Harry Pemberton | Snowdonia Bikes |
| Tracey Woodbine | Woody's Luxury Glamping |
| John Metcalf | Number 18 Conwy |
| Melissa Esplen-Metcalf | Number 18 Conwy |
| Hollie Harmsworth | Follow Films |
| Andrew Sutcliffe | Canolfan Ddringo Boathouse |
| Cai Ross | Paysanne |
| Ceri Thomas | Cadw (Llywodraeth Cymru) |
| Charlotte Williams | Dunoon Hotels Ltd |
| Kimberley Edmunds | The Jester's Tower |
| Caroline Somary | Sweet Snowdonia |
| Nathan Cousins | St Georges Hotel |
| Sally Paveley | The Motorsport Lounge |

**Swyddogaethau**

Bydd yr Is-Grŵp Marchnata yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol

- Hyrwyddo'r cyrchfan - gweld y fasnach yn cefnogi a dylanwadu ar CBSC i farchnata'r cyrchfan
- Creu calendr digwyddiadau ar y cyd – preifat a CBSC
- Canolbwyntio ar arosiadau dros nos – sy'n elwa'r gymuned leol
- Canolbwyntio ar dwristiaeth y gaeaf, rydym am i Gonwy fod yn gyrchfan drwy gydol y flwyddyn
- Twristiaeth gynaliadwy: Rhaid iddo weithio ar gyfer y gymuned leol yn ogystal ag ymwelwyr
- Cysylltiadau ag is-grwpiau eraill – Er enghraifft, mae is-grŵp Llysgennad/Canolfannau Croeso yn edrych ar siop ar-lein Canolfannau Croeso a Rhaglen Llysgennad a Chanolfannau Croeso. Bydd cyffredinedd â'r grŵp hwn

**Strwythur**

- Bydd y grŵp Marchnata yn penodi cadeirydd:- Penodwyd (Maria McLean)
- Bydd y Cadeirydd yn eistedd ar Fwrdd Cyrchfan Conwy, ac yn sicrhau bod negeseuon yn llifo rhwng y grŵp Marchnata a'r Bwrdd
- Enwebodd aelodau eu hunain ar gyfer y grŵp pan hysbysebwyd ailstrwythuro Cyrchfan Conwy. Fodd bynnag, gall aelodau newydd ymuno â'r grŵp, trwy gytundeb y Cadeirydd a rheolwr twristiaeth CBSC
- Mae'r grŵp yn ddigon hyblyg i ganiatáu presenoldeb mewn cyfarfodydd gan bobl tu allan i'r aelodaeth, os yw eu cyfraniad neu bresenoldeb yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol. Rhaid cael cysyniad o flaen llawn gan y Cadeirydd a'r rheolwr twristiaeth CBSC
- Bydd CBSC yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y cyfarfodydd (cofnodi camau allweddol, gwahoddiadau cyfarfod, cyhoeddi cofnodion ar wefan twristiaeth)

**Perthnasau gyda grwpiau eraill**

- Mae'n bwysig bod pum is-grŵp Cyrchfan Conwy yn hysbysu ei gilydd o'r gwaith maent yn ei wneud. Bydd holl gofnodion cyfarfodydd yn cael eu harbed ar wefan twristiaeth y Sir (porth busnes)

**Cyllid**

- Os yw'r grŵp yn dymuno gwneud cais am arian grant i gefnogi ei waith, bydd rhaid gwneud hyn trwy'r Bwrdd ac i geisiadau fynd o dan enw Partneriaeth Cyrchfan Conwy

**Cynnal Busnes**

- Bydd y grŵp yn gweithredu ar sail consensws. Pan fo anghytundeb bydd y Cadeirydd, gan ddefnyddio pob sianel priodol, yn ceisio datrys unrhyw anghytundeb sy'n codi o fewn y grŵp gyda chymorth rheolwr twristiaeth CBSC

**Cyfarfodydd**

- Bydd yr Is-Grŵp Marchnata yn penderfynu ar batrwm y cyfarfodydd er mwyn sicrhau rhediad amserol a chywir o fusnes y grwpiau. Disgwylir i fodloni'n eang ar y seiliau canlynol. Er hwylustod yr aelodau, bydd y bartneriaeth yn cytuno ar raglen gwaith i'r dyfodol sy'n cynnwys dyddiad, amser a lleoliad cyfarfodydd, (neu ddolenni ar-lein) fel rheol chwe mis ymlaen llaw.
- Bydd y cyfarfodydd fel rheol yn cael eu cynnull gan y Cadeirydd, mewn cysylltiad â'r Ysgrifennydd.
- Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn llunio rhaglen, a fydd yn cael ei chylchredeg cyn y cyfarfod. Bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol hefyd ynghlwm wrth y rhaglen.
- Bydd papurau ychwanegol hefyd yn cael ei anfon gyda'r rhaglen a'r cofnodion
- Gofynnir i'r holl drafodaethau yn y cyfarfodydd gael eu trin yn gyfrinachol, gan greu amgylchedd agored i deimlo'n hyderus wrth siarad yn rhydd.

- Bydd pob gweithgaredd yn cael ei gynnal mewn modd agored a thryloyw, drwy gyfathrebu ac ymgynghori, gan gynnwys cyhoeddi gwaith y bartneriaeth a dosbarthu gwybodaeth i'r gymuned ehangach.
- Os yw unrhyw aelod o'r is-grŵp yn dymuno ymddiswyddo o'r grŵp Marchnata, rhaid iddynt gyflwyno eu hymddiswyddiad yn ysgrifenedig i Gadeirydd yr is-grŵp, ac os fydd Cadeirydd yr is-grŵp yn ymddiswyddo, rhaid iddynt gyflwyno eu llythyr ymddiswyddo i Gadeirydd Cyrchfan Conwy. Er y gall yr aelod sy'n ymddiswyddo argymell rhywun yn ei le, mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Grŵp cyn y gellir caniatáu i'r person hwnnw fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.